Annwyl Kay, Derek a Jill,

Diolch am eich e-bost dyddiedig 2 Ebrill yng nghylch cynnig y Comisiwn ar gyfer gwaharddiad rhwydi drifft.

Hoffwn bwysleisio bod cryn sylw wedi cael ei roi i ansawdd a chwmpas yr asesiad effaith yn ystod cyfnod paratoi y cynnig hwn. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus helaeth, yn ogystal a chwblhau nifer o astudiaethau.

Er gwaethaf ein hymdrechion, ni allodd pawb fedru anfon atom, ar y pryd, gwybodaeth fanwl am y defnydd o rwydi drifft a'u heffaith. Mae'n debyg i hyn fod wedi atal y Comisiwn rhag cael darlun cynhwysol o'r sefyllfa, yn cynnwys ym Mhrydain, ac yn fwy penodol yng Nghymru. Mae'n debyg fod hyn hefyd yn arwydd bod y gwaith o fonitro'r pysgodfeydd yma yn bell o fod yn berffaith a bod angen mwy o ymdrech yn hyn o beth gan yr awdurdodau perthnasol yn y dyfodol.

Rydyn felly wedi chwilio am wybodaeth bellach er mwyn hel darlun mwy cynhwysfawr o'r canlyniadau tebygol o waharddiad.

Rwy'n falch o ddweud fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi trosglwyddo yn ddiweddar gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â effaith bosibl cynnig y Comisiwn ar y gweithgareddau pysgota yng Nghymru. Rydym hefyd wedi derbyn eglurhad manwl gan y lywodraeth. Brydeinig yn cynnwys elfennau ychwanegol fydd yn hynod o werthfawr er mwyn deall yn well sut mae'r bysgodfa yn gweithredu, yn ogystal â'r agweddau economaidd. Mae eich neges chwithiau yn cadarnhau bod yna nifer sylweddol o gychod rhwydi drifft bach yng Nghymru.

Mae'r trafodaethau yn y Senedd Ewropeaidd ac yng Nghyngor y Gweinidogion ar y cynnig ymhell o fod wedi gorffen, ac nid oes penderfyniad eto. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r ddau sefydliad, yn enwedig ar ôl derbyn y wybodaeth ychwanegol, er mwyn sicrhau na fydd rheolau'r UE yn cael effaith negyddol ar weithgareddau cynaliadwy. Mae i fyny nawr i'r ddau sefydliad i weithio ar y Rheoliad terfynol. Rwy'n hyderus y bydd y trafodaethau yn caniatau ystyriaeth bellach o'r gwahanol bryderon sydd yn dod i'r amlwg yng nghlyn â physgodfeydd rhwydi drifft cynaliadwy.

Yr eiddoch yn gywir,

Lowri Evans

Kay Swinburne, ASE
*Kay.swinburne@europarl.europa.eu*

Derek Vaughan, ASE
*derek.vaughan@europarl.europa.eu*

Jill Evans, ASE
*Jill.evans@europarl.europa.eu*

Commission européenne/Europese Commissie, 1049 Bruxelles/Brussel, BELGIQUE/BELGIË - Tel. +32 22991111
Office: j_99 06/61 - Tel. direct line +32 229-68038